## Gwybodaeth am ryddhau cleifion

## ar ôl archwiliad o dan anesthetig a thrin ffistwla gyda seton

Rydych chi wedi cael seton (darn tenau o edau/rwber) wedi'i osod trwy'ch llwybr ffistwla i'w helpu i wella'n briodol dros yr wythnosau nesaf.

- Bydd yr edau hon yn aros ac ni ddylai achosi unrhyw broblemau i chi.
- Gall hongian yn is wrth i'r ffistwla wella.

### Ôl-ofal:

- Byddwch yn ofalus wrth sychu a chadwch yr ardal yn lân, gan ddefnyddio dŵr yn unig dros yr ardal.
- Efallai y byddwch chi'n profi rhedlif parhaus neu gynyddol o safle eich ffistwla tra ei fod yn gwella'n araf – mae hyn yn NORMAL.
- Efallai y bydd yn rhaid i chi wisgo pad neu orchudd dros yr ardal gan y gall y seton achosi mwy o fwcws neu rywfaint o smotiau gwaed.

### Os daw eich seton allan:

- Ffoniwch yr Hwb Llawfeddygol neu ysgrifennydd eich meddyg ymgynghorol, fel y gallwn drefnu'r camau nesaf.
- Gwnewch nodyn a yw'r edau yn gyfan gyda dolen NEU yn ddarn syth o edau.

### Pethau i'w hosgoi:

- Tynnu'r edau – gall achosi haint neu grawniad i ffurfio.
- Paratoadau sy'n cynnwys asid salicylig (Aspirin), gan y gallai gynyddu eich risg o waedu.
- Pethau ymolchi persawrus.
- Enemas neu dawddgyffuriau – oni bai eu bod wedi'u rhagnodi'n benodol.
- Gor-yfed alcohol am o leiaf 2 wythnos.

### Cysylltwch â'r Hwb Llawfeddygol, eich Meddyg Teulu neu 111 os:

- Bydd gennych dymheredd uchel.
- Bydd yr anws yn chwyddo.

### Cysylltwch â 111 neu ewch i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys os:

- Byddwch chi wedi colli llawer o waed
- Byddwch yn cael anhawster pasio wrin neu agor eich coluddion

### Gwybodaeth ychwanegol:

https://www.nhs.uk/conditions/anal-fistula/treatment/

**Rhifau cyswllt allweddol**

Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â:

Hwb Llawfeddygol (7am-7pm Dydd Llun-Dydd Gwener) – **02921 826510 neu 02921 826348**

Gofal Brys Llawfeddygol yr Un Diwrnod (sSDEC) yn YAC: drwy'r switsfwrdd – **02920 747747**

**Eich Meddyg Teulu neu 111** ar gyfer gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau gwaith neu'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Fersiwn 1.1 Ebrill 2026